# EIN BLWYDDYN WYLLT 2024/25

## Adroddiad effaith



GWLITHEN FÔR © DAN BOLT

Ymddiriedolaeth Natur
**Gogledd Cymru**
**North Wales**
Wildlife Trust



CLOCHDAR Y CERRIG © JON HAWKINS – SURREY HILLS PHOTOGRAPHY


Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

northwaleswildlifetrust.org.uk

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor, Gwynedd, LL57 2RT
01248 351541
info@northwaleswildlifetrust.org.uk



Rhif Cofrestru'r Elusen 230772


# Cynnwys


3 Ein blwyddyn mewn niferoedd
4 Croeso
5 Dod â Natur yn Ôl
6 Byd natur mewn adferiad
10 Gweithredu ystyrlon
12 Atebion seiliedig ar natur
14 Adolygiad ariannol
15 Edrych ymlaen
16 Ein Partneriaid Naturiol
17 Rhoddion mewn Ewyllysiau


# Ein blwyddyn mewn niferoedd

**9,762** o aelodau

Ymgysylltu â **52** o ysgolion, colegau, prifysgolion a grwpiau ieuenctid, gan gyrraedd **3,541** o blant a phobl ifanc

**1,204** o wirfoddolwyr yn rhoi **35,509** o oriau o'u hamser

**50** o weithwyr cyfwerth ag amser llawn

**83** o berchnogion tir wedi cael cyngor am eu daliadau tir eu hunain, sy'n cyfateb i bron i **500** hectar o dir

**248** o ddigwyddiadau allgymorth ac ymweliadau safle wedi'u trefnu gan staff a gwirfoddolwyr, gan gyrraedd **3,665** o bobl

**18,237** o danysgrifwyr i'n e-gylchlythyr

**951** hectarau o dir ar draws **36** o safleoedd wedi cael eu perchenogi a'u rheoli ar gyfer pobl a bywyd gwyllt

# Croeso

Wrth edrych yn ôl dros flwyddyn o eithafion tywydd, mae ein byd natur a'n bioamrywiaeth ni dan fygythiad digynsail yn amlwg. Tarodd stormydd Bert a Darragh Gymru ar ddiwedd 2024, gan ddod â llifogydd a gwyntoedd cryfion iawn; cawsom wanwyn anarferol o sych ac roedd yr haf canlynol y poethaf i gael ei gofnodi yn y DU.

Mae effeithiau eithafion tywydd ar fyd natur yn niferus. Pan fydd coeden dderwen aeddfed yn cwympo mewn gwyntoedd cryfion, mae'n tarfu ar fywydau cannoedd o rywogaethau dibynnol. Mae sychder yn y gwanwyn a'r haf yn cyfyngu ar argaeledd blodau i bryfed peillio; mae tanau gwyllt yn dod yn fwy cyffredin gydag effeithiau dinistriol, mae'r cydamseru ym mherthynas ysglyfaethwr-ysglyfaeth yn cael ei golli, mae argaeledd bwyd yn gyfyngedig ac mae gwlybdiroedd hanfodol yn sychu.

Pan fydd yr amodau hyn yn cael eu gosod yn erbyn cefndir o bwysau cynyddol ar fyd natur oherwydd llygredd, trefoli, datblygu a chynhyrchu bwyd, mae'n bwysicach nag erioed bod Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn cyflawni ein Strategaeth 2030: *Dod â Natur yn Ôl.*

Gan weithio gyda'n gwirfoddolwyr gwych, rydym yn gwarchod ac yn gwella gwydnwch yn ein gwarchodfeydd natur, yn monitro cynefinoedd sensitif i roi rhybuddion o newid ac yn rhoi cyngor sy'n seiliedig ar natur i berchnogion tir, rheolwyr a datblygwyr. Rydym hefyd yn cyfrannu at Fenter Cydlynu Natur Gogledd Cymru a thrafodaethau polisi gyda Llywodraeth Cymru, ac mae ein heffaith yn cael ei theimlo'n lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang.

Mae pobl yn parhau i fod wrth galon popeth rydym yn ei wneud. Mae gennym bron i 10,000 o aelodau; rydym yn hyfforddi ein pobl ifanc i fod yn arweinwyr y dyfodol mewn cadwraeth; rydym yn cael ein cefnogi gan ystod eang o gyllidwyr a phartneriaid; ac mae rhoddion mewn Ewyllysiau yn cynrychioli ffynhonnell incwm hanfodol rydym yn ei throi'n weithredu uniongyrchol dros fywyd gwyllt.

Diolch i chi am ein cefnogi.



Frances Cattanach
*Prif Swyddog Gweithredol*



Howard Davies
*Cadeirydd*

# Dod â Natur yn Ôl

Ein **gweledigaeth** yw byd naturiol ffyniannus, gyda bywyd gwyllt a chynefinoedd naturiol yn chwarae rhan werthfawr wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd ac ecolegol, a phobl wedi'u hysbrydoli a'u grymuso i weithredu dros fyd natur.

Ein **diben** yw dod â bywyd gwyllt yn ôl, grymuso pobl i weithredu dros fyd natur, a chreu cymdeithas lle mae natur o bwys.

Mae ein **strategaeth** a'i **dri nod** yn nodi'r hyn rydym yn credu sydd angen digwydd erbyn 2030 er mwyn gwireddu ein gweledigaeth tymor hwy ar gyfer adferiad natur.

**NOD 1**

**Mae byd natur yng Ngogledd Cymru yn adfer,** gyda bywyd gwyllt toreithiog ac amrywiol a phrosesau naturiol yn creu tir a môr gwylltach lle mae pobl a natur yn ffynnu.

**NOD 2**

**Mae pobl yng Ngogledd Cymru yn gweithredu dros fyd natur** a'r hinsawdd, gan arwain at well penderfyniadau ar gyfer yr amgylchedd.

**NOD 3**

**Mae byd natur yn chwarae rhan ganolog, werthfawr** wrth helpu i fynd i'r afael â phroblemau lleol a byd-eang.

**NOD 1**

# Byd natur mewn adferiad

Mae 18% o rywogaethau yng Nghymru yn wynebu difodiant - ac mae dyfodol bywyd gwyllt a fu unwaith yn gyffredin yn ansicr.

Mae wedi dod yn amlwg nad yw diogelu'r hyn sydd gennym ni ar ôl yn ddigon bellach. Mae angen i ni greu gofod newydd i fyd natur drwy gysylltu cynefinoedd, adfer tirweddau ac ailgyflwyno rhywogaethau 'allweddol'.

Ein nod ni yw i o leiaf 30% o dir Cymru gael ei ddiogelu, ei gysylltu a'i reoli'n gadarnhaol ar gyfer byd natur. Ein nod ni ar gyfer adferiad ein moroedd yw ceisio dull sy'n seiliedig ar ecosystem i feithrin gwydnwch yn erbyn pwysau cynyddol. Dim ond Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n adfer fydd yn rhan o'r targed o 30%.



BRYN IFAN © DILYS THOMPSON



GWENNOL DDU © JON HAWKINS



GWARTHEG YN PORI © GAIL CADDY

**NATUR MEWN NIFEROEDD**

- Mwy na **500 o oriau** wedi'u treulio yn arolygu traethau yn cofnodi **214 o rywogaethau**
- Arolygu mwy na **130km o Hawliau Tramwy Cyhoeddus** ym masn Afon Dyfrdwy ar gyfer planhigion ymledol a rheoli mwy na **30km o lannau afonydd**
- **100 o focsys gwenoliaid duon** wedi'u gosod yn eu lle ar draws Wrecsam, a mwy na **10,000 o bobl** wedi llofnodi deiseb i'r Senedd i wneud bocsys gwenoliaid duon yn orfodol mewn adeiladau newydd
- **22 rhywogaeth o bili pala** wedi eu cofnodi yng Ngwarchodfa Natur Aberduna

## Gwneud cynnydd at '30 erbyn 30'

Chwaraeodd yr Ymddiriedolaeth rôl lawn fel aelod o Fenter Cydlynu Natur Gogledd Cymru, gan gynnwys cynnal y Rheolwr Rhaglen a gwneud cyfraniadau dylanwadol at ddatblygu safonau monitro ac adrodd ar gyfer natur yng Nghymru. Mae'r Fenter wedi datblygu proffiliau sy'n sefydlu nodau cyffredin ar gyfer byd natur a strategaethau cyflawni sy'n creu manteision i gymdeithas: swyddi, treftadaeth ddiwylliannol a gwasanaethau ecosystem, ac mae'n dechrau cyflawni uchelgeisiau ei haelodau, gan gynnwys mwy o gydweithio rhyngom ni ein hunain ac ymgysylltu gwell â chynrychiolwyr ffermwyr a pherchnogion tir y mae byd natur yn dibynnu arnynt.

Cwblhawyd cynlluniau hefyd ar gyfer ein Gwasanaeth Cynghori ar Reoli Tir, 'Galwad', a fydd yn lansio'n llawn yn 2025-26. Comisiynwyd ni gan Gyswllt Ffermio i gynhyrchu fideo hyfforddi ar gyfer cynghorwyr ffermydd ar gynefinoedd âr; sicrhawyd cyllid i recriwtio cynghorydd ffermydd ac i gefnogi ein rhaglen hyfforddi ac arddangos; a datblygwyd cynlluniau prosiect i'w cyflawni o dan Gynllun Adnoddau Naturiol Integredig Llywodraeth Cymru: disgwylir i'n prosiect 'Porfeydd Unigryw' yn Eryri gynnwys wyth busnes fferm ar draws naw daliadaeth tir sy'n cyfateb i 1,200ha.

## Cadwraeth ar raddfa'r dirwedd

Fe wnaethom barhau i neilltuo adnoddau penodol i'n hardaloedd Tirwedd Fyw ein hunain, wedi'u targedu, ac ymdrechion i ddileu rhywogaethau estron ymledol (INNS). Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys y canlynol:

- Gweithio gyda ffermwyr yn nalgylch Alun i gwmpasu gwaith er budd bywyd gwyllt a gwelliannau i seilwaith ffermydd i helpu i wella ansawdd dŵr
- Rheoli safleoedd arwyddocaol ar Stad Ddiwydiannol Wrecsam er budd glöyn byw y gwibiwr brith, madfallod dŵr cribog a rhywogaethau eraill sydd dan fygythiad
- Cydweithredu ag ymarferyddion creadigol, sefydliadau, cymunedau, unigolion ac arbenigwyr i archwilio dylanwad pwerus Afon Conwy ar ddiwylliant, cymdeithas a'r amgylchedd
- Sefydlu grŵp ffermwyr a pherchnogion tir yng Nghorsydd Môn a chytuno ar ddull o weithredu gyda gwaith arolygu gyda 'Soil Association Exchange'. Paratoi a threialu dulliau dileu INNS newydd, gan gynnwys ffromlys chwarennog, ffwng rhwd a dull newydd, heb ddefnyddio plaladdwyr, o reoli clymog Japan.

## Gwarchodfeydd natur

Mae ein gwarchodfeydd natur ni ein hunain yn parhau i fod ymhlith y safleoedd pwysicaf ar gyfer bywyd gwyllt yng Ngogledd Cymru. Roedd yr uchafbwyntiau penodol yn cynnwys y canlynol:

- Cofnodi llygod pengrwn y dŵr yng Nghors Bodgynydd – y cofnodion cyntaf ar gyfer y safle ers y 1990au!
- Cofnodi tymor llwyddiannus iawn i'r môr-wenoliaid yng Nghemlyn ar ôl difrod y ffliw adar yn 2023, gyda niferoedd uchel o fôr-wenoliaid pigddu a chywion yn hedfan y nyth; cywion yn hedfan y nyth yn gyflym yn ôl pob tebyg; a digonedd o lysywod y tywod mawr
- Adfer mawndiroedd ar blanhigfeydd conwydd blaenorol yng Nghors y Sarnau: gweld gwas y neidr y wäell ddu am y tro cyntaf, yn cynrychioli arwydd bach o lwyddiant
- Creu coed wedi'u 'feteraneiddio' yn artiffisial a phlannu coed atodol yng Nghraig Wyllt i ddarparu amrywiaeth strwythurol
- Gwella cynefinoedd coetir ar gyfer y pathew yn y Ddôl Uchaf i'w annog i ddychwelyd o safleoedd cyfagos
- Parhau i feithrin cysylltiadau agos â chymdogion Eithinog yn Ysgol y Garnedd i ddatblygu eu darpariaeth Ysgol y Goedwig
- Ailgyflwyno pori gan ferlod y Carneddau yng Nghaeau Tan y Bwlch, gan helpu i adfer y borfa rhos a rhoi hwb i'r amrywiaeth o flodau
- Teneuo copaon y coed bedw o amgylch y derw hynafol yng Nghoed Crafnant i wella'r amodau golau ar gyfer eu cennau a'u bryoffytau preswyl prin
- Cael gwared ar gypreswydd Leyland tal ac ailwynebu'r maes parcio yn Chwarel y Mwynglawdd i wella profiad yr ymwelwyr, gyda gwell rheolaeth ar y glaswelltir yn sicrhau manteision botanegol (yn fwyaf nodedig, o ran amrywiaeth y tegeirianau)
- Mynd ati i gael gwared yn helaeth ar gotoneaster estron o Chwarel Marford, y Gogarth, Rhiwledyn a Bryn Pydew



## Bryn Ifan

Parhaodd y gwaith ar ein cyfraniad at Raglen Adfer Coedwig Law Atlantaidd yr Ymddiriedolaethau Natur: ymrwymiad hirdymor i atebion sy'n seiliedig ar natur gan Aviva. Er bod y broses ganiatâd ar gyfer tir comin yn mynd rhagddi'n araf, mae ein gwirfoddolwyr wedi cymryd camau mawr ymlaen yng Nghors y Wlad (SoDdGA gwlybdir ar gyfer glöyn byw brith y gors), gan wella mynediad ar draws y safle drwy osod pontydd, giatiau newydd, marciau gwybodaeth a physt llwybrau yn eu lle a thorri ardaloedd i wella cyflwr y cynefin. Yn y cyfamser, rydym wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynllun i reoli'r fferm mewn ffordd a fydd o fudd i fyd natur a'r economi leol yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

## Gweithredu dros ein moroedd a'n harfordir

Rhoddodd ein Cynlluniau Interniaeth Dyfodol Morol gyfle i ddau berson ifanc gymryd eu camau cyntaf i yrfaoedd yn y sector morol drwy gynllun interniaeth chwe mis gyda thâl, ac fe wnaethom barhau i annog pobl ifanc a chymunedau lleol i adfer cynefinoedd morol gwerthfawr drwy 'Morwellt: Achub Cefnfor' - gyda safleoedd plannu posibl wedi'u treialu'n llwyddiannus yn ardal Caergybi. Drwy ein gwaith gyda Chynghrair Llythrennedd y Môr Cymru, lansiwyd *Y Môr a Ni*: strategaeth llythrennedd y môr ar gyfer Cymru a'r gyntaf o'i bath yn Ewrop. Yn y cyfamser, parhaodd tîm gwych o wirfoddolwyr i fonitro ein glannau ni drwy'r prosiect 'Mae Natur yn Cyfrif', sy'n cynnwys 'Shoresearch', 'Prosiect SIARC' sy'n monitro plisg wyau, ac arolygon gwyddoniaeth y dinesydd amrywiol eraill.


BRYN IFAN © YNGC: DILYS THOMPSON


PLISG WY SIARC © YNGC

NOD 2

# Gweithredu ystyrlon

Heb bŵer pobl, mae'r frwydr i warchod byd natur a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd yn ymddangos yn dasg amhosibl.

Mae gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru gylch gwaith clir i ymgysylltu a grymuso pobl o bob oedran, cefndir a gallu i gynyddu rhengoedd y rhai sy'n barod i weithredu a sefyll dros natur, neu ddim ond i ailymgysylltu â llefydd gwyllt a mannau gwyrdd a'u deall.

Drwy gynyddu nifer y bobl sy'n gallu codi eu llais a gweithredu dros fywyd gwyllt, ac amrywio'r gymysgedd o unigolion sy'n camu i'n sector ni fel staff, aelodau neu ymgyrchwyr, bydd ein llais yn uwch ac yn ymestyn ymhellach nag erioed o'r blaen.



**NATUR MEWN NIFEROEDD**

**35,509 o oriau** wedi'u cyfrannu gan ein gwirfoddolwyr anhygoel – cynnydd o 19% ar ffigurau y llynedd!

Fe wnaethon ni ymgysylltu â mwy na **50 o ysgolion, colegau** a **phrifysgolion**

Fe gymerodd mwy na **150 o bobl** ran yn ein sesiwn glanhau traethau Plast Off blynyddol

Ein postiadau wedi cyrraedd dros **2.8 miliwn** o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol

## Cefnogi cymunedau

I gloi prosiect 'Natur Drws Nesaf', bu ein Trefnwyr Cymunedol achrededig yn hyfforddi staff ehangach ein tîm i gymhwyso'r dull trefnu cymunedol o weithredu, sy'n helpu i sicrhau ymddygiadau amgylcheddol mwy cynaliadwy yn y tymor hwy: methodoleg 'arfer gorau' sy'n dechrau llywio gwahanol feysydd o'n gwaith. Yn y cyfamser, aethom ati i ddechrau gweithio ar ddatblygu 'Hwb Cymunedol' newydd ar ein gwefan, a fydd yn cynnwys canllawiau ac adnoddau ar gyfer unigolion a grwpiau sydd eisiau rhoi cychwyn i adferiad byd natur yn eu cymunedau eu hunain, yn ogystal â llyfrgell o straeon ac adroddiadau ysbrydoledig gan bobl sydd eisoes yn gwneud hynny.

## Meithrin arweinwyr ifanc

Parhaodd ein gwaith datblygu ieuenctid ledled Ynys Môn a Bangor i ffynnu o dan ein rhaglen 'Sefyll Dros Natur Cymru', a'r uchafbwynt yn ddiamau yn ystod y flwyddyn oedd aelodau ein fforwm ieuenctid, Môn Gwyrdd, ochr yn ochr â hanner cant o bobl ifanc eraill o bob cwr o Gymru, yn cyflwyno eu 'Maniffesto Ieuenctid dros Natur' wedi'i ddiweddaru i'r Dirprwy Brif Weinidog yn y Senedd. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at ehangu ein hymdrechion i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf i ogledd ddwyrain Cymru yn ystod 2025-26, lle byddwn yn sefydlu fforwm ieuenctid newydd; datblygu cysylltiadau â cholegau Addysg Bellach i gefnogi pobl ifanc i gael lle ar gyrsiau amgylcheddol; ac annog llwybrau i yrfaoedd gwyrdd.

## Gwirfoddoli



Parhaodd elfen wirfoddoli ein gwaith i ffynnu drwy gydol 2024-25. Cyfrannodd mwy na 1,200 o bobl 35,509 o oriau amhrisiadwy o'u hamser - cynnydd trawiadol o 24% ar ein ffigurau yn 2023-24. Rydym yn hynod ddiolchgar i'n holl wirfoddolwyr ni: boed yn gwarchod gweilch y pysgod Llyn Brenig, yn gweini ar gwsmeriaid yn ein siopau ni, yn gwneud gwaith rheoli cynefinoedd yn ein gwarchodfeydd natur neu'n arolygu glannau Gogledd Cymru, ni allwn ddiolch digon i chi!

## Lledaenu'r gair

Darparodd ein tîm cyfathrebu a marchnata gynnwys cyson o ansawdd uchel a deniadol i gefnogi ein nodau strategol, gan gynnwys cynnydd nodedig yn ein gweithgarwch ymgyrchu (fel y ddeiseb i'r Senedd yn galw am ddeddfwriaeth i wneud brics gwenoliaid duon yn orfodol ym mhob adeilad newydd ledled Cymru – ymgyrch a gasglodd 10,930 o lofnodion). Parhaodd y sianeli digidol yn allweddol i gysylltu â'n cynulleidfaoedd ni a'u cynyddu: cynyddodd y tanysgrifwyr i'n e-gylchlythyrau, *Wythnos Wyllt* a *Wild Weekly*, i 18,237; tyfodd ein dilynwyr ni ar y cyfryngau cymdeithasol 12% flwyddyn ar flwyddyn i fwy na 40,000; ac mae ein gwefan ni wedi denu mwy na 509,000 o ymwelwyr.

NOD 3

# Atebion seiliedig ar natur

Mae colli byd natur yng Ngogledd Cymru yn cael effaith glir a mesuradwy ar fywyd gwyllt ac ar bobl.

Mae rhywogaethau dan fygythiad yn dioddef o golli cynefinoedd; mae lles meddyliol a chorfforol yn dirywio gyda llai o fannau gwyrdd o ansawdd uchel i bobl eu harchwilio a'u mwynhau; mae erydiad pridd yn cynyddu a ffrwythlondeb pridd yn lleihau; ac rydym yn gweld digwyddiadau tywydd eithafol yn amlach.

Diolch byth, gall y byd naturiol ddarparu ei atebion ei hun i frwydro yn erbyn y peryglon hyn ac i'w gwrthdroi hefyd. Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn defnyddio ein dylanwad i annog ac arwain cymdeithas a phobl sy'n gwneud y penderfyniadau i edrych tuag at atebion sy'n seiliedig ar natur i fynd i'r afael ag argyfyngau natur a hinsawdd hyn ac i'w gwrthdroi.

**NATUR MEWN NIFEROEDD**


Fe wnaeth **150,000+ o bobl** ymweld ag un o'n gwarchodfeydd natur– llefydd gwyllt sydd o fudd i fywyd gwyllt ac iechyd a lles dynol fel ei gilydd

**331* $tCO_2e$ wedi'i allyrru** gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ar draws Cwmpas 1-3 -ffigur rydym ni'n gweithio'n rhagweithiol i'w leihau

*Yn 2023-24 – ffigur diweddaraf sydd ar gael



Plannu a monitro morwellt ym Mhenrhyn a Phenrhos, Ynys Môn



Mae pobl yng Ngogledd Cymru yn cael mynediad i fyd natur a gofod gwyrdd tua **163 o weithiau y flwyddyn** – rydyn ni'n gobeithio cynyddu'r ffigur yma erbyn 2030

Casglwyd **1.5 miliwn o hadau morwellt** i gael eu plannu yn 2025



## Adfer i ddal a storio carbon

Mae ein holl waith i wella ac ehangu cynefinoedd bywyd gwyllt ar y tir ac yn y môr yn helpu i adfer ecosystemau, fel bod cynefinoedd naturiol yn gallu dal a storio carbon, helpu i atal llifogydd, lleihau erydiad pridd, gwella ffrwythlondeb pridd, sefydlogi tymereddau byd-eang, darparu gwasanaethau peillio a gwella iechyd a lles pobl. Mae'r prosiectau adfer bywyd gwyllt sydd hefyd yn arbennig o werthfawr o ran dal a storio carbon yn cynnwys adfer mawndir yng Ngwarchodfa Natur Cors y Sarnau, ehangu cynefinoedd morwellt drwy ein gwaith Moroedd Byw, ac adfer coetiroedd, yn fwyaf nodedig, ym Mryn Ifan.

## Rhoi trefn ar ein tŷ ein hunain

Mae ein hallyriadau blynyddol a gyfrifwyd yn fwyaf diweddar o 331 $tCO_2e$ yn cyfateb yn fras i amsugno carbon blwyddyn gyfan o 15,000 o goed aeddfed: gostyngiad sylweddol o ffigurau 2022-23 a seiliwyd ar ostyngiadau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau a brynwyd, tanwydd fflyd ac offer, teithio gan wirfoddolwyr, cymudo gan staff ac allyriadau gweithio o gartref. Rydym yn parhau i wneud yr hyn a allwn i leihau ein hôl troed carbon, gan gynnwys defnyddio cyflenwr ynni adnewyddadwy ar gyfer ein swyddfeydd ac ymchwilio i symud i bympiau gwres ffynhonnell aer a cherbydau trydan.



## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae amrywiaeth pobl yn ganolog i'n cenhadaeth, ac mae staff a gwirfoddolwyr yn deall ac yn gwerthfawrogi gwerth cynhenid cynnwys trawsdoriad ehangach o gymdeithas yn ein gwaith, ac rydym yn anelu at sicrhau bod Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ddull o fodoli. Mae problemau cymdeithas yn gofyn am feddwl arloesol, a dim ond drwy ddod â phobl o wahanol gefndiroedd, credoau, profiadau, syniadau a safbwyntiau at ei gilydd y daw hyn.

Dechreuodd ein Grŵp Datblygu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd gyflawni ein cynllun gweithredu, a chytunwyd ar bolisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd gennym. Gwnaed addasiadau i'r ffordd rydym yn cyflwyno gwybodaeth ar-lein, gan gynnwys ychwanegu teclyn hygyrchedd at ein gwefan, is-deitlau at fideos a gwybodaeth hygyrchedd sylfaenol at restrau digwyddiadau. Yn y cyfamser, mae ein prosiect 'Gofod Glas' yn Nyffryn Conwy yn rhoi cyfle i ni a'n partneriaid gyflwyno dull o weithredu sy'n canolbwyntio ar bobl sy'n ymgorffori amrywiaeth a chynhwysiant yn gyfannol drwy ei broses greadigol. Byddwn yn meithrin ein dealltwriaeth o brofiadau, cysylltiadau a syniadau cymunedau am ddŵr croyw, a'u gobeithion am ddalgylch glanach i Afon Conwy, yn y dyfodol.

# Adolygiad ariannol

Cafodd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru flwyddyn ariannol sefydlog ac rydym yn parhau i fod yn ddiolchgar i'n haelodau, ein cefnogwyr a'n noddwyr am eu haelioni.

Roedd incwm blynyddol yr Ymddiriedolaeth ar sail annibynnol yn £3.3m: gostyngiad o £726k o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn bennaf o dderbyniadau grant is. Cynhyrchodd yr Ymddiriedolaeth ddiffyg net o £55k, o gymharu â gwarged o £170k yn ystod y flwyddyn flaenorol, yr oedd yr Ymddiriedolwyr wedi'i gymeradwyo ymlaen llaw. Roedd y Fantolen yn cynnwys arian parod o £1.7m ar ddiwedd y flwyddyn: gostyngiad o £377k o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r Ymddiriedolwyr yn parhau i adolygu'r balans arian parod a'r gymhareb hylifedd bob mis i sicrhau bod lefelau'r cyfamod yn cael eu cynnal.


Roedd y trosiant yn £4.0 miliwn pan gynhwysir is-gwmnïau masnachu (gostyngiad o £0.6m o gymharu â'r flwyddyn flaenorol): cynhyrchwyd diffyg net bychan o £9k ganddynt, o gymharu â chyfraniad o £127k yn ystod y flwyddyn flaenorol. Roedd sefyllfa ariannol Enfys Ecology yn llawer gwell o gymharu â blynyddoedd blaenorol heriol, gan gynhyrchu trosiant o £613k (i fyny £122k ar y flwyddyn flaenorol) ac elw o £48k yn dilyn gweithredu cynllun o newid, o gymharu â cholled yn ystod y flwyddyn flaenorol. Cafodd NWWT Trading flwyddyn sefydlog gyda lefelau tebyg o drosiant, sef £112k.

Gwelwyd gostyngiad o £49k i £1.9m yn y cronfeydd anghyfyngedig ar ddiwedd y flwyddyn, a chynyddodd y cronfeydd cyfyngedig £40k i £2.9m. Mae'r cronfeydd cyfyngedig yn cynnwys cronfeydd sy'n ymwneud â Bryn Ifan (£1.5m) a'r gwarchodfeydd natur yng Nghors Goch (£193k) a Chors y Sarnau (£112k), a dim ond drwy waredu'r asedau hyn y gellid eu gwireddu.


Mae staff, gwirfoddolwyr a chefnogwyr yn haeddu llongyfarchion a diolch am bopeth sydd wedi'i gyflawni – ymlaen â ni!



Alex Lord
*Trysorydd*




- Grantiau
- Rhoddion, aelodaeth, cymynroddion a chodi arian
- Cynhyrchu arian, gan gynnwys masnachu
- Buddsoddiad a rhenti




- Cadwraeth
- Costau Gweithredu
- Addysg

(Mae'r ffigurau hyn wedi'u 'cyfuno' ac yn cynnwys y rhai ar gyfer Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Enfys Ecology a NWWT Trading)



# Edrych ymlaen: 2025-26

**Mae'r tri nod rhyng-gysylltiedig o'n Strategaeth 2030, '*Dod â Natur yn Ôl*', yn ein harwain ni i gyflawni ein rôl leol hanfodol wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Rydym ni'n rhoi byd natur mewn adferiad drwy helpu pobl i gymryd camau ystyrlon i'w gefnogi, gan gynnwys trwy fabwysiadu atebion sy'n seiliedig ar natur i heriau cymdeithas.**

## NOD 1

**Yn 2025-26, bydd ein gwaith i roi byd natur mewn adferiad yn cynnwys y canlynol:**

- Lansio a staffio ein gwasanaeth cynghori ar reoli tir, 'Galwad'
- Galluogi rhyddhau afancod i'r gwyllt fel rhan o atgyfnerthu poblogaeth
- Defnyddio ein data 'Shoresearch' fel sail i wneud penderfyniadau mewn safleoedd morol ac arfordirol blaenoriaeth
- Chwarae rhan allweddol ym Menter Cydlynu Natur Gogledd Cymru, gan gynnwys cytuno ar bortffolio o flaenoriaethau a chamau gweithredu ar gyfer byd natur a fydd yn adeiladu rhwydweithiau ecolegol gwydn a dylanwadu ar dargedau a pholisïau cyrff eraill



© LAURIE CAMPBELL

## NOD 2

**Yn 2025-26, bydd ein hymdrechion i helpu pobl yng Ngogledd Cymru i gymryd camau gweithredu ystyrlon dros fyd natur yn cynnwys y canlynol:**

- Cefnogi grwpiau o bobl leol i gymryd camau gweithredu dros fyd natur drwy ein 'Hwb Cymunedol' ar-lein
- Canolbwyntio ar berthnasoedd â chynulleidfaoedd allweddol, gan gynnwys cymunedau ffermio, siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, pobl ifanc a theuluoedd
- Datblygu'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr amgylcheddol drwy sefydlu fforwm ieuenctid Gogledd Ddwyrain Cymru a Chyngor Ieuenctid YNGC



## NOD 3

**Yn 2025-26, bydd ein gwaith i ymgorffori atebion sy'n seiliedig ar natur yn rhan o ddatrys problemau cymdeithas yn cynnwys y canlynol:**

- Sicrhau cyllid cychwynnol ar gyfer ein blaenoriaethau carbon glas a phrosiectau adfer mawndiroedd
- Gweithio gyda phartneriaid i nodi nodau cyffredin ar gyfer addasu a lliniaru mewn perthynas â newid hinsawdd yng Ngogledd Cymru
- Gweithredu ein strategaeth lleihau carbon ein hunain, gan gynnwys newid i gerbydau trydan a phympiau gwres



GWARCHODFA NATUR CORS-Y-SARNAU © RICHARD CUTTS

# Ein Partneriaid Naturiol

**Rydym yn falch o weithio dros fywyd gwyllt gyda busnesau ledled Gogledd Cymru.** Mae ein Partneriaid Naturiol yn ein helpu i weithio dros Ogledd Cymru wylltach – boed hynny drwy noddi ein prosiectau; creu cynefinoedd bywyd gwyllt gwerthfawr ar eu tir eu hunain; neu rannu eu harbenigedd am bwnc penodol. Gyda'n gilydd, rydyn ni'n dangos y gall bioamrywiaeth olygu busnes!



# Cofiwch ni yn eich Ewyllys

**Helpwch i ddiogelu bywyd gwyllt lleol a mannau gwyllt ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy adael rhodd yn eich Ewyllys.**

Unwaith y byddwch wedi darparu ar gyfer eich anwyliaid, mae cofio Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn eich Ewyllys yn helpu i gadw eich atgofion o'n bywyd gwyllt yn fyw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae 22% o'n hincwm gwirfoddol yn deillio o roddion mewn Ewyllysiau, sy'n ein galluogi i barhau i amddiffyn y bywyd gwyllt a'r llefydd gwyllt yng Ngogledd Cymru.

Mae pob rhodd ym mhob Ewyllys, waeth pa mor fawr neu fach, yn gwneud gwahaniaeth.

Hoffech chi gael Ewyllys yn rhad ac am ddim? Rydym wedi ymrwymo i nifer o bartneriaethau sy'n galluogi ein cefnogwyr i ysgrifennu eu Hewyllysiau yn rhad ac am ddim – heb unrhyw rwymedigaethau o gwbl. Ewch i **northwaleswildlifetrust.org.uk/legacy** neu cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth.



PHOTO BY OPPOFINDX5PRO ON UNSPLASH


© YNGC


© LIN CUMMINS


© YNGC

# Diolch i'n cefnogwyr

Rydym yn hynod ddiolchgar i'n haelodau, staff, gwirfoddolwyr, rhoddwyr, y rhai sy'n gadael gwaddol, partneriaid, cyllidwyr a buddsoddwyr am eu hymrwymiad i gefnogi adferiad natur. Mae eich haelioni, eich cefnogaeth a'ch ymroddiad parhaus yn hanfodol i helpu i greu Gogledd Cymru fwy gwyllt er budd pobl a bywyd gwyllt fel ei gilydd.

*Diolch!*

Ymddiriedolaeth Natur
**Gogledd Cymru**
**North Wales**
Wildlife Trust